

## **Gweithdrefnau ar gyfer rhoi casgliadau archif AMC/WAW ar adnau yng Nghymru**

Un o brif amcanion Archif Menywod Cymru yw adnabod, achub a chadw defnyddiau sy'n berthnasol i fywydau menywod yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Gellir cyflawni hynny trwy fynd ati i gasglu dogfennau perthnasol, a threfnu eu rhoi ar adnau mewn archif gydnabyddedig, briodol. Mae'r cynllun a ddisgrifir yma, gyda'r ffurflenni a'r telerau ar gyfer adneuo yn atodedig, wedi eu derbyn gan y sefydliadau sy'n perthyn i Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, sy'n cynnwys yr holl Archifdai llywodraeth leol, sawl prifysgol a sefydliad cenedlaethol, y mae gan bob un ohonynt staff cymwys proffesiynol.

Egwyddor y cynllun adneuo yw bod casgliadau yn cael eu cynnig i Archif Menywod Cymru, sy'n eu cyfeirio at yr archifdy perthnasol. Yr archifdy sydd â'r cysylltiadau agosaf, yn ddaearyddol neu yn thematig, i'r un sydd wedi creu'r casgliad fydd yr archifdy priodol. Bydd perchennog y cofnodion, Ymgynghorydd Archifau'r Archif a'r archifdy perthnasol yn ymgynghori wrth ddewis ble i roi'r casgliad ar adnau.

O safbwynt union drosglwyddo'r casgliad, gall hynny fod rhwng y perchennog a'r archifdy y cytunwyd arno, neu trwy law'r Ymgynghorydd Archif, fel bo'n briodol. Caiff y casgliadau eu gweinyddu gan yr archifdy, a fydd yn cydnabod eu derbyn, ac yn dal y casgliad dan bennawd Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales. Felly, sefydlir casgliad rhithiol, ar wasgar yn ffisegol, ond yn cael eu dal yn enw Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales ac wedi'u rhestru gan Archif Menywod Cymru ar gyfer eu cofnodion.

Bydd y Perchennog Gwreiddiol (y Rhoddwr) yn:

- derbyn copi o Bolisi Casglu a Thelerau Adneuo'r archif berthnasol, a chyngor ynglŷn â sut i adneuo'r defnydd.
- trosglwyddo, neu sicrhau bod yr archifdy yn derbyn y defnydd.
- derbyn cydnabyddiaeth fod y casgliad wedi ei dderbyn, gan gynnwys y rhif cyfeirnod a rydd yr Archifdy i'r casgliad.

Bydd yr Ymgynghorydd Archifau (Archifdy Morgannwg) yn:

- trafod casgliadau i'w hadneuo â'r archifdai perthnasol
- ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â lleoli'r casgliadau
- anfon llythyr cydnabyddiaeth a Thelerau Adneuo i'r Rhoddwr, a fydd yn llofnodi a dychwelyd y slip atodedig.
- cydlynu'r gwaith papur ar gyfer adneuo yn holl archifdai Cymru ac anfon copïau i AMC/WAW bob chwarter.

Dyma rôl Archif Menywod Cymru (yr Adneuwr):

- Bydd Cadeirydd AMC/WAW yn llofnodi derbynebaw fel adneuwr
- Caiff casgliadau o lyfrau print eu cyfeirio at Siân Williams.
- Caiff casgliadau o arteffactau eu cyfeirio at y person priodol.

Bydd yr Archifdy yn:

- cydnabod derbyn casgliad yr Adneuwr, y Rhoddwr a'r Ymgynghorydd Archifau.

- derbyn casgliadau a dderbynnir trwy Archif Menywod Cymru fel rhan o gasgliad Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales.
- anfon copi o gofnod manwl o'r casgliad, yn rhestru pob eitem, at Archif Menywod Cymru. Bydd copïau o'r cofnod hwn ar gael ar gyfer ymchwilyr yn ystafell gyfeirio'r archifdy ac ar y Gofrestr Genedlaethol o Archifau, ac ar fasdata'r archifdy a/neu Archifau Cymru/Archives Wales.

Ionawr 2012